

Ariennir gan Lywodraeth Cymru:

Arweinyddiaeth a Rheolaeth ILM

Gweithwyr Chwaraeon Proffesiynol
Diploma lefel 4 a 5



Manteisiwch ar y Cymhwyster Arweinyddiaeth a Rheolaeth hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru

Mae'r Diploma lefel 4 a 5 yn rhaglen Prentisiaeth Uwch sy'n anelu at ddatblygu eich sgiliau a'ch technegau arweinyddiaeth a rheolaeth drwy ddull asesu cymysg, gan eich darparu gyda chymhwyster sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr o fewn addysg ac a gydnabyddir yn rhyngwladol ar draws pob sector o ddiwydiant.

Ar gyfer pwy mae'r cwrs hwn?

- gweithiwr chwaraeon proffesiynol sy'n ystyried ei opsiynau ôl-yrfa,
- arweinydd canol sefydledig yn y sector chwaraeon sy'n ceisio symud ymlaen i rôl uwch
- mae'r cwrs wedi'i gynllunio ar gyfer holl ddarpar arweinwyr ac arweinwyr canol cyfredol; p'un ai eich bod yn dechrau ar eich llwybr tuag at reolaeth ganol neu yn arweinydd canol profiadol sy'n ceisio symud ymlaen i swydd uwch.

Proses Gofrestru

- Asesiadau llythrennedd a rhifedd cychwynnol hanner diwrnod
- Sesiwn ymsefydlu hanner dydd yn cyflwyno cynnwys ac offer y cwrs, ynghyd â chefnogaeth gyda'ch modiwlau cyntaf.

Sut caiff y cymhwyster ei asesu?

Mae dull asesu cymysg yn cael ei ddefnyddio i wahaniaethu ar gyfer anghenion pob unigolyn. Mae hyn yn cynnwys asesiadau ar-lein; trafodaethau a gofnodwyd; arholiad a thystiolaeth wedi ei dogfennu a gefnogwyd gan e-bortffolio.

Sut y darperir y cymhwyster?

Mae Portal wedi datblygu model darparu hollol unigryw i gyd-fynd ag amserlenni gwaith heriol staff o fewn y sector addysg. Byddwch yn cael eich darparu gyda phob un o'r adnoddau, templedi ac offer fydd eu hangen arnoch chi drwy ein darpariaeth ar-lein a byddwch yn cael eich cefnogi gan Asesydd Rheolaeth drwy gyfarfodydd wyneb-yn-wyneb a chydweitho digidol, er mwyn sicrhau bod darpariaeth a chefnogaeth yn gwbl hyblyg a phersonol ar gyfer eich anghenion unigol.



Hyd y Cwrs

Hyd at 18 mis

Nodwch nad yw'r cwrs hwn bob amser yn dilyn blwyddyn academiaidd.




Cost

Wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru:

£4,000 - 5,000

Dim cost i'r ysgol

Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Rheolaeth



Trosolwg o Gynnwys y Cymhwyster

Diploma mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth ILM Cyfunol NVQ-VRQ

Lefel 4

Datblygu Cynllun Gweithredu a'i Roi ar Waith	NVQ
Datblygu Meddwl Beirniadol	VRQ
Rheoli a Gweithredu Newid yn y Gweithle	VRQ
Rheoli Gwelliant	VRQ
Darparu Arweinyddiaeth a Rheolaeth	NVQ
Deall y Rôl Rheolaeth er mwyn Gwella Rheoli Perfformiad	VRQ
Rheoli Straen a Gwrthdaro o fewn y Sefydliad	VRQ
Datblygu Perthnasau Gweithio gyda Rhanddeiliaid	NVQ
Deall a Datblygu Perthnasau yn y Gweithle	VRQ
Rheoli Datblygiad Proffesiynol a Phersonol	NVQ
Rheoli Datblygiad Personol	VRQ

+ dewis isafswm o 6 uned NVQ - unedau a awgrymir:

Annog Dysgu a Datblygiad	NVQ
Sbarduno Newid Gweithredol a'i Weithredu	NVQ
Rheoli Prosiect	NVQ
Rheoli Risg Busnes	NVQ
Annog Arloesi	NVQ
Datblygu Perthnasoedd o Gydweithio gyda Sefydliadau Eraill a'u Rheoli	NVQ
Rheoli Gwrthdaro o fewn Tîm	NVQ
Cyfrannu at Ddatblygu Cynllun Strategol	NVQ

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu 3 Rhifedd, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol
Dull Asesu: Tasgau rheoledig a phrawf
Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth
Dull Asesu: Cwblhau llyfryn

Lefel 5

Rheoli Newid Strategol	NVQ
Datblygu Meddwl Beirniadol	VRQ
Arwain Arloesedd a Newid	VRQ
Rheoli Gwelliant	VRQ
Datblygu Prosesau Busnes	NVQ
Gwneud Achos Ariannol	VRQ
Cyfrannu at Ddatblygu Cynllun Strategol	NVQ
Darparu Arweinyddiaeth a Rheolaeth	NVQ
Deall y Rôl Rheolaeth i Wella Rheoli Perfformiad	VRQ
Rheoli Straen a Gwrthdaro	VRQ
Rheoli eich Datblygiad Proffesiynol Parhaus eich Hun	VRQ

+ dewis isafswm o 6 uned NVQ - unedau a awgrymir:

Sefydlu Prosesau Rheoli Risg mewn Busnes	NVQ
Datblygu Perthnasoedd Gweithio gyda Rhanddeiliaid	NVQ
Rheoli Prosiect	NVQ
Rheoli Risg Busnes	NVQ
Arwain Datblygiad Strategaeth Ansawdd	NVQ
Arwain Datblygiad Strategaeth Gwelliant Parhaus	NVQ

Sgiliau Hanfodol Lefel 2 neu 3 Rhifedd, Cyfathrebu a Llythrennedd Digidol
Dull Asesu: Tasgau rheoledig a phrawf
Hawliau a Chyfrifoldebau Cyflogaeth
Dull Asesu: Cwblhau llyfryn

"Rwy'n teimlo bod y cwrs hwn wedi cael effaith aruthrol ar fy natblygiad academaidd parhaus ac y bydd yn cyfoethogi fy nghyfleoedd ymhellach wedi i fy ngyrfa broffesiynol ym maes rygbi ddod i fwcwl..

Roedd safon y gefnogaeth gan staff Portal yn rhagorol.

Rwy'n teimlo bod y deunydd o ansawdd uchel iawn ac mae'n hawdd iawn ei ddilyn a'i ddarganfod trwy'r tab adnoddau ymhob adran ar Blackboard..

Buaswn i'n argymhell y cymhwyster a'r cwrs hwn i fy nghydwethwyr oherwydd fe ddysgais sawl agwedd wahanol ar fusnes, arweinyddiaeth a rheolaeth; pob un ohonynt yn newydd i fi. Edrychaf ymlaen at gymhwyso'r pethau newydd hyn yr wyf i wedi eu dysgu yn fy ngyrfa yn y dyfodol, yn y dyddiau ar ôl rygbi proffesiynol."

Aled Thomas, Y Scarlets

"Ers dechrau ar y cwrs Arweinyddiaeth a Rheolaeth gyda Hyfforddiant Portal, cefais fewnwelediad rhagorol i adnoddau a theorïau niferus arweinyddiaeth a rheolaeth, ac ar yr un pryd datblygais wir werthfawrogiad o sut i gymhwyso rhai ohonynt yn yr amgylchedd proffesiynol. Nawr, gallaf ddefnyddio'r wybodaeth newydd hon a'i chymhwyso mewn ffordd ymarferol a llwyddiannus yn fy arferion gwaith bob dydd, er mwyn sicrhau mwy o ganlyniadau llwyddiannus.

Mae'r llwyfan ar-lein a'r deunyddiau a geir gan Hyfforddiant Portal o safon uchel ac yn gymorth mawr i helpu'r dysgwr i gyflawni ei dargedau dysgu trwy gydol y cwrs.

Mi fuaswn i'n sicr yn argymhell Hyfforddiant Portal i gydweithwyr a ffrindiau y gallai'r cwrs fod yn addas iddynt."

Rich Buchanan, Clwb Pêl-droed Abertawe

"Fel rhywun o faes chwaraeon, bydd y cwrs hwn yn sicr yn gymhwyster da i fi. Mae wedi fy helpu i ddeall gwahanol fathau o reoli ac rwyf eisoes wedi eu rhoi ar waith.

Maen nhw'n sicrhau bod y deunydd yn berthnasol i fi fel rhywun o faes chwaraeon a gellir teilwra'r cynnwys at fy amgylchedd gwaith. Hefyd, mae'r ffaith fod y deunydd ar gael pryd bynnag y mae'n gyfleus i mi, yn elfen bositif gyda'r amserlen waith sydd gennyf.

Buaswn yn argymhell y cymhwyster hwn am ei fod mor hyblyg a'r cynnwys mor berthnasol."

Rynard Landman, Dreigiau Casnewydd Gwent

"Rwy'n teimlo bod y cwrs wedi cael ei lunio'n dda a'r deunyddiau ar gael yn hwylus trwy wefan Portal.

Rydw i wedi mwynhau gweithio gyda fy aseswr, sy'n gweithio'n galed iawn i fy helpu i barhau i weithio fy ffordd drwy'r cwrs ac yn fy nghynorthwyo mewn unrhyw ffordd bosibl.

Rydw i wedi mwynhau defnyddio deunydd y cwrs fel sail i weithredu yn y gwaith, ac yn meddwl fwy a mwy am yr hyn yr wyf wedi ei ddysgu wrth i mi ryngweithio gyda chwaraewyr eraill."

Jeff Hassler, Tîm Rygbi'r Gweilch

Y Camau Nesaf

I ofyn am fwy o wybodaeth neu i drefnu ymweliad gydag un o'n cynghorwyr i drafod eich amgylchiadau a'ch gofynion, cysylltwch â ni.

Sarah Evans

Mobile: 07713 287957

sarah.evans@portaltraining.co.uk

Swyddfa: info@portaltraining.co.uk | 02920 474 060 | www.portaltraining.co.uk

